

**LLAIS
GWIRFODDOL**

FLVC

Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint



Cefnogi Trydydd
Sector Cymru

Third Sector
Support Wales

VolFest '17



Rhifyn 02- 2017

www.flvc.org.uk

Rhif Elysen 1062644

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204

YN Y RHIFYN HWN

- 2 Yn y Rhifyn Hwn / Am FLVC
- 3 Nodiadau gan Ann
- 4 Ariannu
- 6 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 7 Er Gwybodaeth
- 9 Gwirfoddoli
- 10 Materion Ariannol / The Printroom

GALLWCH FOD YN RHAN
O'R CYLCHLYTHYR HEFYD !

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn
nesaf Llais Gwirfoddol yna ebostiwnch
eich erthygl atom:

Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu,
Corlan, Parc Busness yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir y
Fflint, CH7 1XP

info@flvc.org.uk
01352 744000

Fuasech chi'n fodlon derbyn ein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost?

Bu inni anfon arolwg at ein hapddalwyr yn ddiweddar a bu i dros 80% o'r ymatebwyr ddatgan y byddan nhw'n fodlon derbyn y ddogfen hon ar-lein. Byddwn yn anfon e-bost at bawb ar ein basdata yn fuan yn gofyn y cwestiwn yma.

Bydd copïau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copïau caled. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost jane.hewson@flvc.org.uk

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIRY FFLINT (FLVC)

Ein Gweledigaeth :

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint

Ein Cenhadaeth :

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Y DIWEDDARAF GAN FLVC

Mae hi'n bleser gennym ni gyhoeddi fod FLVC yn ddiweddar wedi derbyn gwobrau gan Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Chwarae Teg (Cyflogwr Enghreifftiol – Lefel Cyflawni).



Mae'r ddwy wobryn amlygu ymrwymiad y mudiad i gydnabod a gwerthfawrogi ein gwirfoddolwyr a'n staff. Da iawn pawb!

Dyddiadau i'ch dyddiadur - ar ôl llwyddiant ein Cynhadledd Trydydd Sector yn 2016, bydd gan y digwyddiad eleni agenda llawn unwaith eto, a'r thema fydd cyd-gynhyrchu - gan gydnabod mai'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau ydy'r rhanddeiliaid pwysicaf.

CYNHADLEDD TRYDYDD SECTOR - 'Cyd-gynhyrchu ar waith' Dydd Iau 7fed o Fedi 9:30yb tan 1yp yn cynnwys cinio ysgafn Ystafell Clwyd, Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug. I gadarnhau eich lle anfonwch e-bost at info@flvc.org.uk.

Caiff ein Cyfarfod Blynyddol ei gynnal yr wythnos ganlynol ar nos Iau 14eg o Fedi, unwaith eto yn Theatr Clwyd. Dewch draw (a dewch â ffrind gyda chi!) i glywed am waith FLVC.

Mae pob Cyngor Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru bellach yn ymuno gyda WCVA fel rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru – partneriaeth o fudiadau Cefnogi Trydydd Sector ar draws y wlad. Bydd y Cynllun Busnes ar gyfer y rwydwaith yn llunio pedwar maes gwaith

- gwirfoddoli,
- nawdd cynaliadwy,
- lywodraethu da ac
- ymrwymiad strategol a dylanwadol

Rydym ni'n edrych ymlaen at gydweithio gyda phartneriaid y rwydwaith er mwyn amlhau effeithiolrwydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd y Trydydd Sector.

Diolch i bawb wnaeth ymateb i'n arolwg ar-lein (ac ar bapur) ynglŷn ag anghenion cefnogi i grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Dyma rai darganfyddiadau o'r arolwg:

Roedd 81 % o atebwyr yn cytuno neu yn cytuno'n gryf bod angen cefnogaeth ychwanegol ar Fudiadau'r Trydydd Sector i hyfforddi a chefnogi eu gwirfoddolwyr a'u hymddiriedolwyr.

Roedd 73 % o atebwyr yn cytuno neu yn cytuno'n gryf bod angen rhoi cefnogaeth mentora/cyfoedion i Ymddiriedolwyr o fewn mudiadau'r Trydydd Sector.

Roedd 37% o fudiadau yn nodi bod angen cefnogaeth gyda Chwrs Cyflwyno i Ymddiriedolwyr.

Roedd 41% o fudiadau yn nodi bod angen cefnogaeth gyda Chwrs Cyflwyno i Wirfoddolwyr.

Roedd 51% o fudiadau yn nodi bod angen cefnogaeth gyda Rheolaeth Gwirfoddolwyr i Staff.

Byddwn ni'n defnyddio'r darganfyddiadau hyn i'n helpu i lunio ein Cynllun Busnes ein hunain ac i roi gwybod am ein gwaith i fudiadau partner lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Ac i gloi, yn 2017 mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) yn dathlu ei ben-blwydd yn 20ain oed. Bydd ein Cynhadledd Trydydd Sector (7fed o Fedi) a'n Cyfarfod Blynyddol (gyda'r nos ar 14eg o Fedi) yn cynnwys rhai myfyrdodau dros yr 20 mlynedd diwethaf. Ar 13eg o Orffennaf byddwn ni'n gwahodd yr holl staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr blaenorol i ddod ynghyd – manylion i ddilyn. Lledaenwch y gair!

Cofion Gorau

Prif Swyddog
01352 744028

ann.woods@flvc.org.uk



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**

ARIANNU

RHAGLEN GRANTIAU NEWYDD AR WAITH O HYDREF 2017

Mae Hanfod Cymru yn gronfa elusennol genedlaethol newydd sy'n benodol i Gymru, gan ddosbarthu arian a godir at achosion da gan Loteri Cymru i gryfhau bywyd cymunedol yng Nghymru.

Ein nod yw cefnogi prosiectau lleol, ar hyd a lled Cymru. Fel dyfarnwr grantiau cyffredinol byddwn yn ceisio adlewyrchu anghenion a gofynion y rhai sy'n gwneud cais i ni ond bydd ganddom ni bwyslais cychwynnol ar anghenion cymdeithasol, ar y celfyddydau a chreadigrwydd, ac ar brosiectau addysgol.

Rydym wedi strwythuro ein grantiau er mwyn gallu ymateb i brosiectau cymunedol bach sydd angen symiau cymharol fach, yn ogystal ag i fentrau mwy o faint ac yn fwy strategol gyda'r nod o wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl.



Rydym wedi sefydlu fel elusen annibynnol rhif 1172179 sy'n gweithredu ar hyd braich oddi wrth weithredwyr Loteri Cymru, er mwyn sicrhau bod Cymru'n elwa hyd yr eithaf o'r datblygiad newydd cyffrous hwn.

<http://www.hanfodcymru.wales/about-us/>

ARCHWILIAD AR Y SEFYLLFA CODI ARIAN A HYFFORDIANT GWEITHREDOL

RGwahoddir elusennau cofrestredig sydd â dau neu fwy o aelodau staff a chydag incwm gwirfoddol o hyd at £50,000 i wneud cais am gymorth codi arian yn rhan o'n prosiect "Archwiliad ar y Sefyllfa Codi Arian a Hyfforddiant Gweithredol" a ariennir gan y Loteri Fawr.

Caiff elusennau llwyddiannus eu paru â hyfforddwr profiadol a fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu strategaeth codi arian newydd, gan felly gynyddu'r sgiliau codi arian a'r wybodaeth yn yr elusen.

I gael pecyn gwybodaeth a ffurflen gais cysylltwch ag alisonp@institute-of-fundraising.org.uk neu ffoniwch 02920 340062

GIST GYMUNEDOL SIR Y FFLINT

Rydym yn awr yn derbyn ceisiadau gan fudiadau sy'n cynnig grant o hyd at £1000 er budd trigolion Sir y Fflint i gynnal y mentrau canlynol -

- Prosiectau cyfalaf bach fel gwaith trwsio adeiladau a diweddarau gosodion a nodweddion mewnol.
- Digwyddiadau Cymunedol
- Offer ond dim nwyddau traul
- Cyhoeddusrwydd / marchnata
- Cyrsiau / digwyddiadau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y cais wedi ei gwblhau ydy dydd Gwener Hydref y 6ed Cysylltwch gyda June Brady am becyn cais gyda'r meini prawf cyflawn a ffurflen gais. june.brady@flvc.org.uk

Bydd sesiwn hyfforddiant Gist Gymunedol ar ddydd Mawrth Medi'r 19eg o 2yp. Os hoffech chi ddod i ddysgu sut i lunio cais, cysylltwch gyda June Brady. Yn y rownd olaf, bu'r grwpiau canlynol yn llwyddiannus:

- Sgowntiaid a Geidiaid Saltney Ferry i osod gwresogyddion pelydrol a sychwr dwylo ar gyfer y Cwt Sgowntiaid.
- Gorwellion Newydd i brynu gliniadur ac argraffydd ar gyfer y staff ac aeloda
- Cylch Chwarae Trelogan i brynateganau a thabledi cyfrifiaduron ar gyfer sesiynau grŵp
- Clwb Theatr Bwcle i dynnu hen wal a gosod ynysiad yn ei le
- Cyfeillion Dyffryn Rhydymwyn i gynnal Gweithdy Celfyddydau yn yr Haf
- Tîm Chwilio ac Achub Gogledd Ddwyrain Cymru er mwyn llunio taflenni hyrwyddi, poster i arwydd palmant
- Kim Inspire i brynu offer ar gyfer prosiect sied i ddynion



RHAGLEN CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Cynllun grant cyfalaf yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol all gael ei ddefnyddio i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned a hefyd ar gael at eu defnydd.

Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy o faint hyd at £250,000.

Mae'r Rhaglen yn agored i sefydliadau cymunedol a hefyd sefydliadau sy'n perthyn i'r sector gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Pwyslais y Rhaglen yw cynyddu cyfleoedd, creu ffyniant i bawb a datblygu cymunedau cryf lle mae pobl yn ymddiddori yn eu cymunedau ac wedi'u grymuso. Disgwylir i bawb sy'n ymgeisio weithio gyda phartneriaid all ddod o'r sectorau cyhoeddus neu breifat neu'r trydydd sector.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i geisiadau gan ardaloedd clwstwr yr hen raglen Cymunedau yn Gyntaf. Er hynny, croesewir ceisiadau o ardaloedd eraill a disgwylwn y bydd modd i ni ariannu'r gorau ohonyn nhw.

A fydddech cystal â darllen y canllawiau cyn gwneud cais.

Os hoffech gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen anfonwch e-bost at y tîm: Communityfacilitiesproghelp@gov.wales.

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-facilities-programme/?lang=en>



PAWB A'I LE

Yn ariannu prosiectau cyfalaf a refeniw rhwng £10,001 a £500,000

Yn sgil adborth gan gwsmeriaid, mae Pawb a'i Le wedi ei ddiweddarau i fod yn gyflymach ac yn symlach.



Os ydych eisoes wedi dechrau llenwi cais peidiwch â phoeni, byddwn yn parhau i dderbyn y ffurflen gais Pawb a'i Le flaenorol hyd at 31 Hydref.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hwn, ffoniwch ni ar 0300 123 0735 neu e-bostiwch cymru@cronfaloterifawr.org.uk.

Mae Pawb a'i Le bellach wedi ei rhannu i ddau edefyn, grantiau maint canolig a grantiau mawr.

Mae grantiau maint canolig yn cynnig grantiau rhwng £10,001 a £100,000 ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at bum mlynedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i

www.biglotteryfund.org.uk/pawbailecanolig.

Mae grantiau mawr yn cynnig grantiau rhwng £100,001 a £500,000 ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at bum mlynedd. I gael mwy o wybodaeth ewch i

www.biglotteryfund.org.uk/pawbailemawr.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DIGWYDDIADAU A HYFFORDIANT

ARIAN DIGIDOL

Rhowch hwb i'ch codi arian digidol eleni gyda'r gweithdy hwn ar gyfer grwpiau gwirfoddol ac elusennau lleol yn Yr Wyddgrug

Dechrau arni gyda codi arian arlein

12/10/17 - Corlan @ Parc Busnes Yr Wyddgrug - 14:00 i 16:00

Erbyn diwedd y sesiwn, byddwch chi:

- Yn deall y hanfodion codi arian arlein
- Yn gwybod sut gall eich mudiad buddio o godi arian arlein
- Yn adnabod offer ac adnoddau sydd ar gael i chi am ddim
- Wedi cofrestru ar Localgiving, sydd yn eich galluogi i hawlio £ 200 o gyllid cyfatebol
- Yn gallu defnyddio'r llwyfan codi arian Localgiving yn hyderus
- Yn deall sut i ofyn i bobl i gefnogi eich achos
- Yn barod i sicrhau eich rhodd digidol cyntaf
- Yn ymwybodol o sut i ddatblygu a chynnal perthynas gyda rhoddwyr
- Wedi datblygu deunyddiau hyrwyddo newydd ar gyfer eich achos

Mae hwn yn sesiwn ymarferol. I gael y gorau allan o'r gweithdy, bydd angen i gyfranogwyr ddod â gliniadur neu dabled.

Lluniaeth ysgafn ar gael!

Rhaid archebu lle ymlaen llaw.

Cysylltwch â FLVC: 01352 744000 info@flvc.org.uk

Rydym yn cynnig y gweithdy yma o dan y Rhaglen Datblygu Cymru, a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Trwy'r rhaglen, bydd elusennau a grwpiau cymunedol yn dysgu i fynd ati'n hyderus i gynnal ymgyrchoedd codi arian arlein. Bydd grwpiau sy'n cymryd rhan yn elwa o:

- Aelodaeth AM DDIM o Localgiving am flwyddyn (£72 fel arfer) yn agored i bob grŵp lleol yn y trydydd sector – gan gynnwys y rheini sy'n rhy fach i gofrestru'n elusen ac felly'n methu ag ymuno â llwyfannau rhoi arlein eraill
- Hyfforddiant, mentora a chymorth wyneb yn wyneb (wedi'u teilwra i anghenion eich mudiad chi) i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth o'ch achos a chodi arian arlein
- 200 o gyllid cyfatebol (wedi'i glustnodi i bob grŵp sy'n ymuno) i roi cymhelliad ychwanegol i godi arian arlein!

I gofrestru ar y rhaglen, ewch i

join.localgiving.org/cymru



Y PROSIECT PWYTHO' YN RHAGORI!



Yn dilyn y fenter Gweu Sgwâr i Share gan y tîm JoY (Journey of Youth) o'r Ardal Cenhadaeth Aber a'r Mynydd, bu digwyddiad Prosiect Pwytho yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Maesglas. Fe gafodd dros 23 blanced eu cyfrannu at SHARE ar gyfer ffoaduriaid. Bu i ddisgyblion nifer o ysgolion gyfrannu sgwariau wedi eu gweu gan ffrindiau a theuluoedd yn eu cymunedau.

Dyma lun o aelodau clwb gweu Ysgol Maesglas lle bu i dros 30 o ddisgyblion gyfarfod pob diwrnod am wythnosau i gynhyrchu dros 300 o sgwariau. Bu i ddisgyblion a gynigodd dros 10 awr o'u hamser dderbyn Gwobrau Gwirfoddoli

Pobl Ifanc Sir y Fflint. Uchod mae enillwyr y Wobr Arian a gafodd eu dewis i ddanfoni y 23 blanced fel cydnabyddiaeth o'r 20 awr y bu iddyn nhw ei dreulio yn gweithio ar y prosiect. Bu i'r Grŵp JoY dderbyn Gwobrau Aur am y 30 awr y bu iddyn nhw eu hymroi at y prosiect yn ymestyn ledled yr Ardal Cenhadaeth o Licswm i Chwitffordd, Fflint a Mostyn.

Rydym yn dal yn derbyn blancedi a sgwariau a byddwn yn trefnu danfon ail lwyth o flancedi at SHARE. Gallwch adael eich cyfraniad yn Eglwys Rhosesmor (CH7 6PJ) ac mae ar agor pob diwrnod.

GWYDNWCH CYMUNEDOL

Wrth i Lywodraeth Cymru barhau i ddatblygu rhaglen i hybu Cymunedau Cryf, mae WCVA yn gweithio gyda'r sector i archwilio'r cysyniad o gryfder cymunedol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant, wedi siarad am yr angen am ddull newydd o adeiladu cymunedau cryf.

Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio'n benodol ar dri pheth, sef y blynyddoedd cynnar, cyflogadwyedd a grymuso. Dros yr haf a'r tu hwnt, bydd WCVA yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu syniadau ac awgrymiadau ar yr hyn sy'n gwneud cymuned gryf, ac i helpu i siapia syniadau Llywodraeth Cymru ar y rôl y

gall y sector ei chwarae yn hybu cryfder cymunedau ac yn eu grymuso.

Rydym bellach wedi lansio ein Tudalen Cymunedau Cryf, lle bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cael ei gyhoeddi. I ddechrau, mae'n cynnwys papur trafod ar y cyd rhwng WCVA a Talwrn, sy'n tynnu ar drafodaethau y mae WCVA wedi'u cynnal â rhwydweithiau'r sector, a gwybodaeth am ein panel trafod ynglŷn â chymunedau cryf yn yr Eisteddfod.

Byddwn yn ychwanegu at y dudalen dros yr wythnosau nesaf, felly cofiwch gadw llygad arni.

Gallwch fynd i'r Dudalen Cymunedau Cryf yma.

<https://www.wcva.org.uk/what-we-do/resilient-communities-a-third-sector-perspective>

ER GWYBODAETH

GARDD GYMUNEDOL BRYN GWALIA

Mae a wnelo ein Gardd Gymunedol yn fwy na dim ond plannu hadau; mae a wnelo â phlannu syniadau, ehangu sgiliau a meithrin hunan-barch. Rydym ni hefyd yn lle i bobl y gymuned ddod ynghyd; sy'n rhoi sgiliau garddio i bobl ac yn eu dysgu nhw sut mae tyfu eu bwyd eu hunain. O'r henoed i bobl ifanc, o bob gallu ac anabledd, mae pawb yn elwa o'r prosiect rhyngweithiol hwn sy'n addas i bob cenhedlaeth.

Os ewch chi ar hyd y llwybr at y giât las fe ddewch chi ar draws peth annisgwyl a rhyfeddol...

Mae'r Ardd Gymunedol yn rhoi cyfle i bawb o bob gallu ac anabledd fod yn greadigol trwy gynnig nifer o brofiadau dysgu ymarferol o arddio, tyllu yn y pridd ffrwythlon, dysgu am blanhigion a datblygu sgiliau garddio. Yn araf bach, gyda'n gilydd rydym ni'n dod i ddeall sut mae tyfu pethau ein hunain a chreu compost. Rydym ni'n adeiladu gwahanol fathau o fframiau i dyfu ffrwythau a llysiau ac yn dysgu am



dyfu mewn blychau. Rydym ni'n mwynhau ailgylchu hen baledi a'u troi yn ddodrefn cyfforddus i'r ardd sy'n llawn dychymyg. Mae rhywbeth i'w wneud yma i bawb.

Rydym ni'n adeiladu cynefinoedd a byrddau bwydo ar gyfer yr holl fywyd gwyllt sy'n dod i'r Ardd. Rydym ni'n gobeithio y bydd dod yn ymwybodol o'n bywyd gwyllt yn meithrin cyswllt naturiol gyda natur, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'n ecoleg a sut mae pobl yn effeithio ar ac yn cael eu heffeithio gan ein hamgylchedd naturiol.

Bydd hyn felly yn ysbrydoli ymdeimlad o stiwardiaeth a gofal dros ein hamgylchedd.

Eleni rydym ni am edrych ar ein stori a llunio ein polyn straeon ein hunain. Bydd hi'n braf cael datblygu ein crefftau gan fod angen trwsio nifer o'r bordiau ar y ffensys.

Rydym ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi yma rhyw ddiwrnod yn y dyfodol agos.



Volunteer Graham Davies patiently building the storage unit for tools



Volunteer Davis surveying the raised beds at the garden

VOLFEST '17



Bu VolFest - ein Digwyddiad Dathlu Gwirfoddolwyr Cenedlaethol yma yn Sir y Fflint - ar ddydd Gwener Mehefin y 9fed. Gyda diolch i gronfa 'Dathlu' y Loteri Fawr, roedd modd inni gynnal ein digwyddiad eleni yn Theatr Clwyd. Roedden ni eisiau gofalu ei fod yn ddiwrnod hwyl i'r holl bobl sy'n cynnig cymaint o'u hamser i wneud gwahaniaeth i'n cymunedau lleol yma yn Sir y Fflint. Bu i fudiadau gwirfoddol enwebu gwirfoddolwyr yr oedden nhw eisiau iddyn nhw dderbyn tystysgrifau 'Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr' - sef gwirfoddolwyr lle heb eu gwaith nhw, y buasai'n amhosib cynnal eu mudiad.

Wrth i wirfoddolwyr gyrraedd yr Ystafell Clwyd, bu inni fwynhau adloniant gan y côr 'SWAGG' sef 'Supporting Working Age Guys and Girls affected by cancer' (Cefnogi Merched a Bechgyn Oedran Gweithio wedi eu heffeithio gan gancr). Bu iddyn nhw ganu caneuon poblogaidd a gododd calon pawb a oedd yn bresennol!!

Yna bu i oddeutu 150 o wirfoddolwyr dderbyn eu tystysgrifau, ac yn ogystal roedden ni'n ffodus eleni yn Sir y Fflint o fedru cyflwyno gwobrau i dri pherson cafodd eu henwebu i dderbyn y Wobr fawreddog Gwirfoddolwr y Flwyddyn.

Dyma'r enillwyr: Graham Davies - wedi ei enwebu ar y cyd gan y Rhaglen Gwirfoddoli 'Camu Fyny Camu Allan' a Mudiad Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru.

Sue Capewell - wedi ei henwebu gan Storfa Blant Cei Connah

John Morris - wedi ei enwebu gan Heddlu Gogledd Cymru.

Yn dilyn cyflwyno'r tystysgrifau bu'n bleser mawr gennym ni wrando ar y band roc 'Sound Express' sef band lleol o gerddorion dawnus wedi eu cefnogi gan y Prosiect 'Celfyddydau Cymunedol Emerge'.

Yna bu inni wahanu i fod yn dri grŵp er mwyn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai yn ein tro, sef:

Symudiadau Tai Chi er Lles

Ffilm fud Charlie Chaplin yn y sinema

Gweithdy Pypedau gan staff Theatr Clwyd.

Diolch yn fawr i bawb wnaeth helpu i ofalu fod y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Mae'r Diolch mwyaf, fodd bynnag, i'r holl Wirfoddolwyr Gwych sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau trigolion a chymunedau Sir y Fflint.



IEUENCTID YN ARIANNU YN MYND I DDIGWYDDIAD PRESWYL CAERDYDD



Mae'r Ieuenctid yn Ariannu yn grŵp o bobl ifanc ledled Sir y Fflint. Bu i ddau berson ifanc o'r grŵp deithio i Gaerdydd i'r digwyddiad preswyl a chynhadledd. Bu iddyn nhw gynrychioli Sir y Fflint i safon wych ar y platfform Cymru gyfan.

Roedd un o'r grŵp yn rhan o banel cyfrinachol o feirniaid fu'n arsylwi'r cyflwyniadau gan y grwpiau ieuenctid o bob cwr o Gymru. Wedi ei atodi y mae llun o'r beirniad yn cynnig adborth i ystafell o oddeutu 100 person. Yn yr ystafell yr oedd pobl ifanc o bob cwr o Gymru, gweithwyr proffesiynol o Lywodraeth Cymru, Cynghorwyr Pobl Ifanc Gwirfoddol lleol a llawer mwy. Roedd yn siarad am grŵp ieuenctid a enillodd taleb £100 am fod yn enghraifft wych o brosiect gwirfoddoli o dan arweiniad Pobl Ifanc. Roedd y grŵp ieuenctid buddugol o Sir y Fflint! Llongyfarchiadau i wirfoddolwyr Cambria Heini.

MAE ARIAN YN BWYSIG

CADARNHAU CYNHYDDU OEDRAN

PENSIWN

Bydd yn rhaid i chwe miliwn o ddynion a merched yn eu 40au ddisgwyl blwyddyn ychwanegol cyn derbyn eu pensiwn gwladol. Bydd y cynnydd mewn oedran pensiwn i 68 ar waith yn raddol rhwng 2037 a 2039 yn hytrach nag o 2044 fel y cynigwyd yn wreiddiol. Mae'r rheiny caiff eu heffeithio rhwng 39 a 47 oed ar hyn o bryd.

CYFLOGWR - GOFAL PLANT GYDA CHEFNOGAETH

Mae Gofal Plant di-dreth yn gynllun amgen i'r cynllun 'taleb gofal plant' sydd eisoes yn bodoli ac mae'r rheiny sy'n hunan-gyflogedig yn gymwys ar gyfer y cynllun hefyd. Am bob £8 fyddwch chi'n ei gyfrannu, bydd y Llywodraeth



**CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES**

yn ychwanegu £2 ychwanegol, hyd at £2,000 ar gyfer pob plentyn pob blwyddyn. I wybod mwy www.childcarechoices.gov.uk

Bu i Gomisiwn yr Elusennau gomisiynu Populus i gynnal ymchwil annibynnol ynghylch yr ymddiriedaeth a'r hyder yng Nghomisiwn yr Elusennau.

- Mae 31% o'r cyhoedd yn ymwybodol y bu iddyn nhw elwa o neu ddefnyddio gwasanaeth elusennau (cynnydd o'r 19% yn 2015)
- Mae 88% o'r cyhoedd yn cytuno fod swyddogaeth Comisiwn yr Elusennau yn hanfodol neu'n bwysig iawn
- Mae 71% o'r cyhoedd yn cytuno fod gweld fod elusen wedi'i chofrestru yn galonogol
- Mae 58% o'r cyhoedd a 77% o elusennau yn teimlo fod eu helusennau wedi eu rheoleiddio'n effeithiol

CYFRIFON ELUSENNAU BACH

Bu i'r Comisiwn ganfod, drwy graffu ar enghraifft o 109 o gyfrifon elusennau bach, yr oedd 55% o safon dderbyniol (cafodd 47% eu cyflawni yn y 2 flynedd flaenorol).

THE PRINTROOM

Rydym ni rŵan yn argraffu calendrau 2018. Beth am ichi ddewis eich lluniau gorau o'ch digwyddiadau eleni a'u rhoi yn eich calendr 2018 – gall fod yn ffordd ddefnyddiol iawn o godi arian. Fe allwch chi gael calendr A4 ochr sengl gyda chlwr blaen a chefn am £4.95 neu galendr ochr ddwbl am £3.95 gyda'ch lluniau eich hunain.

Yn ychwanegol at hyn, fe allwn ni argraffu eich lluniau teulu gwerthfawr ar ganfas yn barod i'w fframio am gyn lleied â £10. Fe allwn ni hefyd droi eich lluniau yn gardiau cyfarch/Nadolig o 45c yr un. Galwch heibio am sgwrs ac i weld rhai samplau.

Sicrhewch mai THE PRINTROOM ydy'ch dewis cyntaf.

01352 744031

theprintroom@flvc.org.uk